

Diploma Estynedig Lefel 3 Ffasiwn a Dylunio Cynaliadwy (Amser Llawn)

Edrychwch o'ch cwmpas rydym wedi'n hamgylchynu gan ffabrigau sy'n darparu swyddogaeth ac addurn i ni ein hunain a'n byd. O'r dillad rydych chi'n eu gwisgo i'r sofffa rydych chi'n eistedd arno, mae'r ffabrigau a'r cynhyrchion hyn i gyd wedi'u dylunio gan weledydd sy'n cymryd ysbrydoliaeth o'r byd rydyn ni'n byw ynddi a gallai'r gweledydd hwn fod yn chi! Gyda phwyslais mawr yn cael ei roi ar bob diwydiant i sicrhau dyfodol y blaned, bydd cynaliadwyedd yn elfen allweddol o'r cwrs fel eich bod yn 'ymwybodol' yn creu trwy ddefnydd cynyddol o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, ffabrigau naturiol ac eco-liwio.

Bydd y cwrs hwn yn cefnogi eich meddwl creadigol ac arbrofi, gan eich helpu i ddatblygu eich ymchwil ac ymarfer cyd-destunol eich hun i greu cysyniadau dylunio newydd trwy eich dewis o opsiynau gyrfa posibl megis; tecstilau, gosodiadau, ffasiwn, gwisgoedd, ategolion neu du mewn. Gall Ffasiwn a Thecstilau arwain at yrfa i'r rhai a grybwyllwyd uchod, yn ogystal â steilio, teledu a theatr, darlunio, prynu a marchnata ffasiwn, rheoli manwerthu, peiriannau melino, torri patrymau ac adeiladu, a llawer mwy.

O fewn y cwrs byddwch yn datblygu eich sgiliau technegol ym meysydd ffasiwn a dylunio tecstilau gyda phwyslais yn cael ei roi ar gynaliadwyedd lle bo modd. Bydd hyn yn cynnwys lluo o brosesau tecstil, darlunio a dylunio ffasiwn, torri patrwm a drapio, byrddau hwyliu, lluniadu traddodiadol a digidol a dylunio ffabrig yn ogystal â brandio a marchnata cyfryngau cymdeithasol, gan arbenigo ym mlwyddyn 2 o fewn eich dewis arbenigedd.

Gofynion Mynediad

Gofynion mynediad = 5 TGAU A-C (gan gynnwys pwnc yn seiliedig ar Gelf a Saesneg a phortffolio o waith)

Ar gais anfonir briff ar gyfer prosiect Haf i'w ddangos wrth gofrestru.

Rhagolygon Gyrfa

Dylunydd Ffasiwn, Dylunydd Tecstilau, Dylunydd Mewnol, Dylunydd Gemwaith, Arlunydd, Steilio, Torri Patrymau, Dylunio Gwisgoedd, Rheolaeth Celfyddydau, Therapi Celf, Teilwaith, Dylunio Esgidiau, Brandio Ffasiwn a Marchnata.

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





Asesiad

Asesiadau parhaus drwy gydol y flwyddyn academaidd.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Afan - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

2Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ enquiries@nptcgroup.ac.uk

🌐 www.nptcgroup.ac.uk

